# Addewid gan Gomisiynydd Plant Cymru i Bobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal





**Dros ugain mlynedd yn ôl, o ganlyniad i fethiannau sylweddol i gefnogi plant mewn gofal, gwnaeth Cymru benderfyniad dewr, a chreu Comisiynydd Plant, a fyddai'n gweithio i ddiogelu a hybu hawliau plant a bod yn eiriolydd annibynnol dros blant Cymru.**

Bu gennym ni dri chomisiynydd cyn i mi dderbyn y swydd am gyfnod o saith mlynedd yn 2022; mae pob un ohonyn nhw wedi bod yn bencampwyr tanbaid o blaid plant â phrofiad o ofal. Mae'n fraint aruthrol i mi gael bod yn bencampwr annibynnol i chi yn ystod y saith mlynedd nesa, ac rydw i mor falch bod Cymru wedi penderfynu creu Siarter Rhianta Corfforaethol i sicrhau bod pobl sydd mewn grym yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'ch cefnogi.

## Neges gan Gomisiynydd Plant Cymru

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc 42 o hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Mae'r hawliau hyn yn rhoi i blant a phobl ifanc y pethau mae arnyn nhw eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Fy ngwaith i yw helpu i sicrhau bod holl hawliau plant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu diogelu. Fy ngweledigaeth yw Cymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc yn deall eu hawliau, yn gwybod bod y Comisiynydd Plant yno i sefyll dros yr hawliau hynny, ac yn gallu cyrchu cefnogaeth i wireddu'r hawliau hynny.

Rwy'n gwybod y bydd angen mwy o gefnogaeth ar rai plant a phobl ifanc nag eraill i fwynhau'r hawliau sydd ganddyn nhw. Dyna pam rwy'n rhannu fy Addewidion i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Mae'r Addewidion hyn yn nodi sut bydd y tîm a minnau yno i chi.

Rydyn ni wedi ymrwymo i wrando arnoch chi, fel ein bod ni'n gwybod pa faterion i'w hyrwyddo ar eich rhan.

Rydyn ni wedi ymrwymo i helpu i sicrhau bod y gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio yn gwybod am eich hawliau ac yn ystyried eich hawliau wrth wneud penderfyniadau amdanoch chi a'r gwasanaethau rydych chi'n eu defnyddio.

Byddwn ni'n eich cefnogi chi i godi llais am faterion – da neu ddrwg – ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n annog newidiadau fydd yn gwella pethau i blant.

Byddwn ni bob amser yn herio pobl eraill i wireddu eich hawliau. Fyddwn ni ddim yn ofni dal ati i dynnu sylw at wasanaethau gwael, penderfyniadau gwael a dewisiadau gwael os ydyn nhw'n cael effaith negyddol ar fywydau plant.

Mae'r Siarter hon yn nodi sut bydd fy nhîm a minnau yn cadw'r addewidion hynny i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. I wneud yn siŵr ein bod ni'n cyflawni'r addewidion hyn, bydda i'n sicrhau bod fy Nhîm Rheoli yn cadw trac o'n holl gamau gweithredu drwy eu trafod bob 3 mis, a bydd yn adrodd yn ôl ar ein cynnydd yn ein Hadroddiad Blynyddol.

Rwy'n annog pob gwasanaeth sy'n cefnogi pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i fyfyrio ar sut gallan nhw gryfhau eu cyfrifoldebau a dangos yn eglur i blant a phobl ifanc sut yn union byddan nhw'n cadw eu haddewidion fel Rhieni Corfforaethol.

***Rocio Cifuentes** MBE*

**'Rhiant corfforaethol' yw'r enw sy'n cael ei roi ar sefydliad neu berson sydd â chyfrifoldeb arbennig dros blant â phrofiad o fod mewn gofal. Fel 'rhiant corfforaethol', fe ddylen nhw fod yn cwblhau'r nifer o'r pethau fyddai rywun yn disgwyl o riant cariadus. Er ein bod nhw methu cynnig popeth fyddai rhiant yn medru darparu, fe ddylen nhw fod yn medru cynnig y gofal a'r gefnogaeth gorau posibl i'r plant a phobl ifanc yn eu gofal.**

| Yr Addewidion a nodwyd yn y Siarter | Sut byddwn ni'n cadw'r addewidion hyn | Yr hawliau yn CCUHP y bydd hyn yn helpu i'w cynnal | Sut mae hyn yn datblygu pum egwyddor dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant yn ein gwaith[1] |
|---|---|---|---|
| 1 Byddwn ni'n cymryd amser i wrando ar bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac yn sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed a'u hystyried yn weithredol ym mhob penderfyniad a wneir yn eu cylch.<br> | Byddwn ni'n sicrhau bod y Comisiynydd a'r tîm yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau o blant sydd â phrofiad o ofal i sicrhau eu bod yn dylanwadu ar y gwaith rydyn ni'n ei wneud.<br>Byddwn ni'n gwneud hyn ar lefel strategol ac ar lefel unigol.<br>Ar lefel strategol, bydd Panel Ymgynghorol Pobl Ifanc y Comisiynydd a'r Panel Oedolion yn cynnwys pobl â phrofiad o ofal i roi adborth gwerthfawr i ni ar ein gwaith a'n cyfeiriad. Rydyn ni wedi ymrwymo yn ein strategaeth ymgysylltu i greu cysylltiad rheolaidd â grwpiau o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn sicrhau ein bod ni'n gwrando arnyn nhw ac yn clywed am faterion sy'n effeithio arnyn nhw.<br>Ar lefel unigol, bydd ein tîm o weithwyr achosion bob amser yn gwrando arnoch chi i ddeall beth sy'n bwysig i chi. Gyda'ch caniatâd, byddwn ni'n eich helpu i herio gwasanaethau ar eich rhan, er mwyn sicrhau bod eich hawliau'n cael eu cynnal. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i fynegi eich barn a'ch safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 13).<br>Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i gael gwrandawiad a'ch cymryd o ddifri (Erthygl 12).<br>Bydd hyn hefyd yn helpu i gynnal eich hawl i breifatrwydd os nad ydych chi eisiau i bobl wybod pethau amdanoch chi (Erthygl 16). | **Gwreiddio hawliau plant** – sicrhau bod hawliau plant yn greiddiol wrth gynllunio a darparu gwasanaeth.<br>**Cyfranogiad** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.<br> |
| 2 Byddwn ni'n trin pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal â pharch. | Byddwn ni bob amser yn ymrwymo i herio pob stereoteip o bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Ni ddylai plant a phobl ifanc gael eu diffinio gan eu profiad o ofal.<br>Byddwn ni'n codi llais os na fydd y rhai sydd â phrofiad o ofal yn cael eu trin yn deg.<br>Byddwn ni'n dysgu oddi wrth y bobl ifanc â phrofiad o ofal rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ac yn rhaeadru'r dysgu yna ar draws ein sefydliad. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i beidio wynebu gwahaniaethu yn eich erbyn (Erthygl 2).<br>Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i hunaniaeth (Erthygl 8). | **Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. |
| 3 Byddwn ni'n cynnwys pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal mewn penderfyniadau sy'n cael eu gwneud amdanyn nhw. | Byddwn ni bob amser yn sicrhau bod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cael cyfle i fwydo i'n gwaith, trwy gyfarfodydd ein cynllun Llysgenhadon Cymunedol, ymweliadau grŵp, paneli ymgynghorol a gwaith achosion.<br>Mae hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn gwrando ar ystod o safbwyntiau a phrofiadau ac yn adlewyrchu hynny yn ein gwaith. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i gael gwrandawiad a'ch cymryd o ddifri (Erthygl 12).<br>Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i gael mynediad at wybodaeth (Erthygl 17). | **Grymuso plant** – gwella galluoedd plant fel unigolion fel eu bod mewn sefyllfa well i fedru manteisio ar eu hawliau, ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u galw i gyfrif.<br>**Cyfranogiad** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn. |
| 4 Byddwn ni'n rhoi gwybodaeth yn rheolaidd i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am ein hymwneud â nhw ac yn esbonio ein camau gweithredu wrthyn nhw. | Mae bod yn atebol i blant yn eithriadol o bwysig.<br>Ar lefel strategol, byddwn ni'n adrodd am gamau gweithredu fy Swyddfa yn ein Hadroddiad Blynyddol, i'n paneli ymgynghorol, ac i Bwyllgorau'r Senedd.<br>Bydden ni'n hoffi mynd ymhellach. Bydden ni'n hoffi i'm Swyddfa fod yn uniongyrchol atebol i'r Senedd Ieuenctid, ac ymgysylltu ag Uwchgynhadledd Llywodraeth Cymru ar gyfer Pobl Ifanc sydd â Phrofiad o Ofal er mwyn nodi sut rydyn ni wedi bod yn gweithio at gyflawni ein haddewidion.<br>Ar lefel unigol, byddwn ni bob amser yn rhoi gwybod i chi sut rydyn ni wedi symud ymlaen gyda'r materion rydych chi'n eu codi gyda ni. Byddwn ni'n gwneud hynny â llythyr cau achos gan fy ngweithwyr achosion. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i fynegi eich barn a'ch safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 13).<br> | **Cyfranogiad** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.<br>**Atebolrwydd** – dylai awdurdodau fod yn atebol i blant am benderfyniadau a chamau gweithredu sy'n effeithio ar eu bywydau. |
| 5 Byddwn ni'n defnyddio iaith uniongyrchol wrth gyfathrebu â phob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofa. | Fel Swyddfa rydyn ni wedi ymrwymo i ddefnyddio Cymraeg Clir/Plain English pryd bynnag byddwn ni'n ysgrifennu neu'n dweud rhywbeth.<br>Rydyn ni hefyd yn ymrwymo i gynhyrchu gwahanol fersiynau o'n hadnoddau a'n harolygon er mwyn bod yn hygyrch i bob plentyn a pherson ifanc. Ein nod, lle bynnag y bo modd, yw teilwra hynny i'r gynulleidfa, gyda chynnwys BSL a PMLD a addaswyd.<br>Byddwn ni hefyd yn cefnogi plant a phobl ifanc i herio iaith maen nhw'n teimlo sy'n amhriodol. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i gael mynediad at wybodaeth (Erthygl 17).<br>Bydd hyn yn helpu i gynnal hawliau plant ag anableddau i chwarae rhan weithredol yn ein gwaith (Erthygl 23). | **Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod.<br>**Grymuso plant** – gwella galluoedd plant fel unigolion fel eu bod yn gallu manteisio'n well ar hawliau, ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u galw i gyfrif. |
| 6 Byddwn ni'n dangos tosturi wrth ystyried anghenion yr holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. | Fel rhan o'n cynllun dysgu a datblygu ar gyfer ein tîm staff cyfan, rydyn ni'n cynnal rhaglen reolaidd o ymweliadau partner ar gyfer yr holl staff, i gryfhau cysylltiadau a chynyddu ein dealltwriaeth o brofiadau bywyd.<br>Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru i ddatblygu dulliau gweithredu seiliedig ar hawliau plant, er mwyn iddyn nhw fedru adlewyrchu anghenion plant yn well wrth ddylunio'u gwasanaethau. Byddwn ni'n gwneud hyn trwy ein Cynnig Ffordd Gywir a'n gweithdai hawliau. | Bydd hyn yn helpu i gynnal yr hawl i oedolion weithredu er eich lles pennaf (Erthygl 3).<br>Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i ymadfer wedi trawma (Erthygl 39). | **Cydraddoldeb a pheidio â chamwahaniaethu** – sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle cyfartal i fod y gorau gallan nhw fod. |
| 7 Byddwn ni'n gweithio gyda'r holl blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i'w helpu i gyflawni eu nodau. | Rydyn ni'n cynnig nifer bach o leoliadau gwaith bob blwyddyn i bobl ifanc sydd ag amrywiaeth eang o brofiadau, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. | Bydd hyn yn eich helpu i gynnal eich hawl i gyflawni eich potensial llawn (Erthygl 6). | **Grymuso plant** – gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn fwy abl i fanteisio ar eu hawliau, ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u galw i gyfrif. |
| 8 Byddwn ni'n rhoi gwybod i bob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal am y broses ar gyfer cyflwyno cwyn os byddan nhw'n teimlo nad ydyn ni'n cadw at y siarter hon. | Mae fy nhîm Ymchwiliadau a Chyngor yno i gefnogi unrhyw blentyn sy'n teimlo nad yw eu hawliau'n cael eu gwireddu.<br>Yn fy nghynllun tair blynedd, rwyf wedi ymrwymo i greu polisi cwynion enghreifftiol i blant, i helpu plant i esgaladu eu pryderon. Byddaf yn ymrwymo i gynnwys pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ei ddatblygiad. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i fynegi eich barn a'ch safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 13).<br>Bydd hyn hefyd yn helpu i annog gwasanaethau i gydymffurfio â'u dyletswyddau o ran hawliau plant, ac i gynnal CCUHP (Erthygl 4). | **Gwreiddio hawliau plant** – gwneud hawliau plant yn rhan greiddiol o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau. |
| 9 Byddwn ni'n cynghori pob plentyn a pherson ifanc sydd â phrofiad o ofal bod ganddyn nhw hawl i eiriolaeth annibynnol er mwyn sicrhau bod eu barn, eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu clywed wrth i benderfyniadau gael eu gwneud, neu pan fyddan nhw'n anhapus ac am i rywbeth gael ei atal, ei gychwyn neu ei newid.<br> | Trwy ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor byddwn ni'n rhoi cyngor ac arweiniad i blant a'r oedolion hynny sy'n eu cefnogi er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gweithredu er lles pennaf y plentyn, ac yn dilyn y prosesau priodol wrth wneud penderfyniadau.<br>Byddwn ni bob amser yn gofyn i berson ifanc ydyn nhw'n fodlon i ni eiriol ar eu rhan. Byddwn bob amser yn rhannu gwybodaeth gyda phobl ifanc am y sgwrs a gawson ni gyda'u caniatâd. Byddwn bob amser yn gofyn oes gan berson ifanc eiriolydd, ac ydyn nhw am gael un.<br>Mae gan y Comisiynydd Plant bwerau unigryw i hybu newid cadarnhaol i blant, gan gynnwys pŵer i adolygu sut mae gwasanaethau penodol yn darparu eiriolaeth a chefnogaeth i godi cwynion. Mae'r Comisiynydd yn bencampwr annibynnol i blant, ac yn gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i blant sydd ddim o bosib yn derbyn eu hawliau. Mae'r gefnogaeth yma ar gael i chi trwy ein Gwasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor. | Bydd hyn yn helpu i gynnal eich hawl i fynegi eich barn a'ch safbwyntiau ar faterion sy'n effeithio arnoch chi (Erthygl 13).<br>Bydd hyn hefyd yn helpu i gynnal eich hawl i breifatrwydd os nad ydych chi eisiau i bobl wybod pethau amdanoch chi (Erthygl 16).<br> | **Grymuso plant** – gwella galluoedd plant fel unigolion, fel eu bod yn fwy abl i fanteisio ar eu hawliau, ymgysylltu â'r sefydliadau a'r unigolion sy'n effeithio ar eu bywydau, a'u galw i gyfrif.<br>**Cyfranogiad** – gwrando ar blant a rhoi sylw ystyrlon i'w barn.<br> |

1. I ddysgu mwy am ein dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, gan gynnwys canllawiau ar sut rydyn ni'n cefnogi cyrff cyhoeddus i gyflawni hyn, edrychwch ar ein hamrywiaeth o adnoddau dwyieithog sydd ar gael yn ddi-dâl ar ein gwefan https://www.complantcymru.org.uk/adnoddau/dull-hawliau-plant-2/

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

www.comisiynyddplant.cymru